



Ein cyf/ JH-/00057/25

Ceri Willcox
clerk@glynneathtowncouncil.gov.uk

06 Chwefror 2025

Annwyl Ceri,

Diolch am eich gohebiaeth a anfonwyd at y Prif Weinidog, Eluned Morgan AS, gan dynnu sylw at bryderon Cyngor Tref Glyn-nedd ynghylch y penderfyniad i roi'r gorau i ddyfarnu taliadau tanwydd gaeaf yn awtomatig i bob pensiynwr. Mae'r ohebiaeth hon wedi cael ei throsglwyddo i mi gan fod trechu tlodi o fewn fy maes portffolio.

Nid yw'r cyfrifoldeb am daliadau tanwydd y gaeaf wedi'i ddatganoli i Gymru, felly nid ydym yn gallu deddfu er mwyn creu cynllun cyfatebol ar gyfer Taliadau Tanwydd y Gaeaf. Rydym yn parhau i drafod trechu tlodi a'n buddiannau cyffredin gyda Llywodraeth y DU.

Rwyf am eich sicrhau bod mynd i'r afael â Thlodi Tanwydd yn parhau i fod yn flaenoriaeth i mi. Mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi ymgyrch Llywodraeth y DU i annog pensiynwyr cymwys i gofrestru ar gyfer Credyd Pensiwn. Gwnaeth hyn helpu i sicrhau bod pensiynwyr cymwys yn derbyn taliadau tanwydd y gaeaf hwn. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i helpu pobl yng Nghymru ac maent yn ceisio sicrhau bod y rhai sydd fwyaf angen cymorth yn ei dderbyn.

Gwnaeth fy natganiad ysgrifenedig diweddar [Datganiad Ysgrifenedig: Trechu tlodi tanwydd \(27 Ionawr 2025\) | LLYW.CYMRU](#) amlinellu ein cymorth arall, fel cynllun Nyth Cartrefi Cynnes, talebau tanwydd, hybiau cynnes a'r Gronfa Cymorth Dewisol.

Rwyf hefyd wedi amgáu copi o'r llythyr a rannais gydag Aelodau Senedd Cymru ac Aelodau Senedd y DU ynghylch yr ystod o gymorth y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddarparu i aelwydydd agored i niwed, a allai fod o gymorth i mi yn fy marn i.

Rwy'n gobeithio y bydd yr wybodaeth uchod yn ddefnyddiol.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, reading "Jane Hutt". The signature is written in a cursive style with a large initial 'J' and a distinct 'H'.

Jane Hutt AS/MS

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip